Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaethau Mamolaeth a darperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Medi 2009

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED
Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

www.hiw.org.uk

CYNNWYS

1.	**Cyflwyniad a Chefndir**	1
2.	**Canfyddiadau**	5
3.	**Asesiad AGIC o gynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran gweithredu ei hargymhellion**	17
	Atodiadau	
	Atodiad A: Argymhellion o adroddiad AGIC o'i adolygiad o'r gwasanaethau mamolaeth a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent	21
	Atodiad B: Llythyr Prif Weithredwr AGIC at yr Ymddiriedolaeth 1 Mai 2008	25
	Atodiad C: Llythyr Prif Weithredwr AGIC at yr Ymddiriedolaeth 1 Rhagfyr 2008	31
	Atodiad Ch: Perthynas rhwng 'Mesurau Arbennig' a'r Argymhellion yn Adroddiad Terfynol AGIC	35

1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Ym mis Tachwedd 2007 cyhoeddwyd gennym (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)) y byddem yn cynnal Adolygiad o'r Gwasanaethau Mamolaeth a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Cynhaliwyd gwaith maes yr Adolygiad ym mis Ebrill 2008.

1.2 Amlygwyd sawl pryder o bwys ynglŷn â diogelwch parhaus menywod a'u babanod yn ystod ein gwaith maes. Oherwydd hynny, gosodwyd AGIC Gwasanaethau Mamolaeth Ymddiriedolaeth GIG Gwent dan 'Fesurau Arbennig' ym mis Mai 2008. Fel rhan o'r 'Mesurau Arbennig' hyn, roedd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gymryd camau yn ddiymdroi i fynd i'r afael â dau ffactor allweddol fel mater o flaenoriaeth:

- Trefniadau rheoli ac arwain annigonol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth.
- Trefniadau staffio oedd ymhell o fod yn berffaith.

1.3 Gosodwyd yr Ymddiriedolaeth dan 'Fesurau Arbennig' nes i'r camau angenrheidiol fod wedi eu cymryd a'r newidiadau fod wedi eu sefydlu yn ddigonol, er mwyn i AGIC allu bod yn hyderus y byddai'r gwasanaethau i fenywod a'u babanod yn parhau i fod yn ddiogel ac o ansawdd da.

1.4 Eglurwyd gofynion y 'Mesurau Arbennig' mewn llythyr a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth ar 1 Mai 2008 (gweler Atodiad B) ac roedd yn cynnwys:

- Gofyniad i'r Ymddiriedolaeth lunio cynllun gweithredu.
- Rhoi adroddiad wythnosol i AGIC ynglŷn â chynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu

- Cyfarfodydd misol rhwng AGIC a Chadeirydd, Prif Weithredwr ac uwch swyddogion eraill yr Ymddiriedolaeth (mynychwyd y cyfarfodydd gan swyddogion o Swyddfa Ranbarthol LlCC, aelodau o'r Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol ac eraill sy'n cefnogi gwaith yr Ymddiriedolaeth ar y cynllun gweithredu hefyd).

1.5 Aethom i ymweld â'r Ymddiriedolaeth am yr eildro ym mis Awst 2008 i asesu cynnydd a wnaed o ran bodloni'r gofynion a nodwyd yn ein llythyr ar 1 Mai 2008.

1.6 Ar 1 Rhagfyr 2008, ysgrifenasom i'r Ymddiriedolaeth (gweler Atodiad C) i gydnabod y graddau yr oedd wedi llwyddo i gyflawni gofynion y cynllun gweithredu. Roedd y llythyr hwnnw hefyd yn rhestru'r camau yr oedd AGIC yn dymuno gweld mwy o waith arnynt er mwyn diddymu'r 'Mesurau Arbennig' a osodwyd ar wasanaethau mamolaeth yr Ymddiriedolaeth. O ystyried y gwelliannau a wnaed, cytunwyd y byddai'r adroddiadau'n cael eu cyflwyno bob mis yn hytrach na phob wythnos i AGIC, a pharhawyd â'r cyfarfodydd misol gyda'r Ymddiriedolaeth.

1.7 Ar 11 Chwefror 2009, cyhoeddwyd adroddiad gennym ar ein hadolygiad cychwynnol. Yr oedd yr adroddiad yn nodi 10 argymhelliad yr oedd AGIC eisoes wedi'u dwyn i sylw'r Ymddiriedolaeth yn ein llythyr dyddiedig 1 Mai 2008. Mae copi o adroddiad AGIC ar gael yn http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgId=477&pid=13451.

1.8 Rhoddwyd yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad mewn grwpiau dan bedwar pennawd:

- Arwain a Rheoli,
- Darpariaeth Gwasanaethau Mamolaeth,
- Diwylliant
- Rheoli Risg (gweler Atodiad A).

1.9 Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Chwefror 2009, paratôdd yr Ymddiriedolaeth ail gynllun gweithredu i ymdrin â'r holl argymhellion yn yr adroddiad llawn. Cytunodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar y cynllun gweithredu ym mis Mehefin 2009 ac mae wedi cael ei fonitro'n rheolaidd ers hynny drwy sawl dull gan gynnwys Bwrdd Darparu a Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth sydd newydd ei sefydlu. Er bod nifer o'r camau yn ymwneud yn benodol â'r gwasanaethau mamolaeth, roedd gan lawer ohonynt gwmpas ehangach (yn enwedig y rhai hynny ynglŷn ag arweinyddiaeth a swyddogaeth y Bwrdd) ac roeddynt hefyd yn berthnasol i waith arall yr oedd AGIC wedi bod yn ei wneud gyda'r Ymddiriedolaeth yn 2008, yn bennaf ynglŷn â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

1.10 Mae'r berthynas rhwng yr argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a'r materion yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn destun 'Mesurau Arbennig' o'u herwydd wedi ei nodi yn Atodiad Ch.

1.11 Ym mis Ebrill 2009, cyhoeddwyd gennym ein bwriad i ailymweld â'r Ymddiriedolaeth i asesu a oedd cynnydd digonol wedi'i wneud o ran ei chynllun gweithredu. Dyma oedd gylch gorchwyl yr ailymweliad hwn:

- Sefydlu i ba raddau yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi mynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn llythyr AGIC ar 1 Mai 2008.
- Penderfynu, yn benodol, a oedd y meini prawf ar gyfer diddymu'r "Mesurau Arbennig" a nodwyd yn llythyr AGIC ar 1 Rhagfyr 2008 wedi eu bodloni.
- Archwilio i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r argymhellion pellach a oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad terfynol AGIC ar ei adolygiad.

1.12 Cynhaliwyd yr ail ymweliad ym mis Mehefin 2009 ac mae'r canfyddiadau a'r casgliadau wedi eu nodi ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn.

2. Canfyddiadau

2.1 Amlygodd yr ymweliad dilynol a gynhaliwyd gennym ym mis Mehefin 2009 fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud peth cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion a wnaethom. Rydym yn fodlon bod yr holl faterion sydd o bryder allweddol wedi derbyn sylw, er bod nifer o argymhellion lle y cychwynnwyd ar y gwaith ond bod angen parhau â hynny.

2.2 Nodir isod grynodeb o'r cynnydd yr ydym wedi ei ganfod o ganlyniad i'n hailymweliad ym mis Mehefin 2009.

Arwain a Rheoli

2.3 Penododd yr Ymddiriedolaeth Bennaeth Bydwreigiaeth ym mis Awst 2008, a dechreuodd yn y swydd ddechrau mis Hydref 2008 **[Argymhelliad AGIC 1 (a)]**.

2.4 Daethpwyd â chyn-gyfarwyddwr nyrsio profiadol o Ymddiriedolaeth arall i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r tîm arwain bydwreigiaeth. Yn 2009, penodwyd y cyfarwyddwr hwnnw yn Gyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro yn yr Ymddiriedolaeth. Mae uwch reolwyr bydwragedd wedi'u penodi ac mae'r uwch dîm arwain bydwreigiaeth bellach wedi ei sefydlu. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu trefniadau i gefnogi'r tîm uwch, er enghraifft trwy'r rhaglen Arwain Sefydliad wedi'i Rymuso (LEO) a mentrau hyfforddi a datblygu eraill, a sefydlwyd strwythur o gyfarfodydd i ddarparu rheolaeth effeithiol. Gwnaeth y brwdfrydedd a'r egni amlwg ymhlith y grŵp o reolwyr argraff dda arnom.

2.5 Cytunwyd ar linellau adrodd eglur, gan gynnwys y gallu i fynd at y Bwrdd, ar gyfer y swydd Pennaeth Bydwreigiaeth **[Argymhelliad AGIC 1 (a)]**. Er enghraifft, bwriedir i'r Pennaeth Bydwreigiaeth gyflwyno'r Strategaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth i'r Bwrdd ynghyd â'r Pennaeth Staff ym mis Hydref.

2.6 Cynyddwyd gallu'r Ymddiriedolaeth i arwain a rheoli o ran Obstetryddion trwy benodi Cyfarwyddwr Clinigol profiadol i swydd Cyfarwyddwr Clinigol Obstetreg. Dechreuodd yn y swydd ym mis Rhagfyr 2008. Ym mis Ebrill 2009, dechreuodd yr Ymgynghorydd hwnnw yn swydd Pennaeth Staff ar gyfer Obstetreg a Gynaecoleg, gan gadw'r prif gyfrifoldeb am Obstetreg. Caiff ei gynorthwyo ym maes Gynaecoleg gan Gyfarwyddwr Clinigol **[Argymhelliad AGIC 1 (b)]**.

2.7 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu trefniadau i reolwyr cyffredinol, meddygol a bydwreigiaeth y gwasanaethau mamolaeth weithio fel tîm cydweithredol. Cadarnhaodd ein cyfweliadau gyda'r rheolwyr yr ystyrir eu cydweithredu yn gadarnhaol a'i fod yn effeithiol **[Argymhelliad AGIC 1 (c)]**.

2.8 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi paratoi Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth sy'n eglur ac sy'n cynnwys yr agweddau hynny ar ddarparu gwasanaeth y byddem yn eu disgwyl. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Strategaeth a Darparu Gwasanaethau Mamolaeth. Y Prif Weithredwr sy'n ei gadeirio ac y mae staff yr Ymddiriedolaeth yn ogystal â'u cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yn mynychu ei gyfarfodydd. Llofnodwyd Cytundeb Partneriaeth gyda'r Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol ym mis Awst 2008, sy'n nodi lefel y gefnogaeth y bydd yr Uned yn ei darparu er mwyn gallu gweithredu'r datblygiadau angenrheidiol a chyflawni'r Strategaeth. Rhannwyd y Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth drafft gyda'r staff ym mis Mai 2009 er mwyn derbyn eu sylwadau ac roedd am gael ei gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth i'w gadarnhau ym mis Hydref 2009.

2.9 Mae'r Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol wedi datblygu ei gynllun gwaith gyda'r gwasanaethau Mamolaeth drwy ymgynghori â'r Pennaeth Staff, y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Nyrsio. Y Cyfarwyddwr Nyrsio yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol cyswllt ar gyfer yr Uned.

2.10 Bydd y cynllun gwaith yn canolbwyntio yn gyntaf ar asesiad o'r cynnydd a wnaed a chydymffurfiad â'r Safonau Gofal Iechyd a'r Safonau Mamolaeth. Defnyddir hwn i flaenoriaethu darnau allweddol o waith er mwyn ymdrin ymhellach â'r materion a nodwyd gan AGIC ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2009, a nodi personél y Gwasanaeth Mamolaeth a fydd yn arwain y gwaith yn rhan o'u hamcanion.

2.11 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd sawl cam i weithio fel tîm yn well yn y gwasanaethau mamolaeth **[Argymhelliad AGIC 2 (a)]**. Mae Fframwaith y Cynllun Gwelliannau Mamolaeth yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys y bwriad i:

- Ddatblygu gwaith tîm effeithiol iawn
- Gweithredu rhaglen amlddisgyblaeth o archwiliadau NICE wedi eu blaenoriaethu
- Datblygu, cytuno a chychwyn gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth, sy'n cynnwys Nod Strategol o Arwain, Rheoli a Gweithio fel Tîm yn Effeithiol.

2.12 Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd Fframwaith y Cynllun Gwelliannau Mamolaeth wedi ei gwblhau yn llawn, ond roedd wedi ei ddosbarthu ymhlith y staff er mwyn derbyn eu sylwadau. Mae angen gwneud mwy o waith ar y fframwaith er mwyn sicrhau y datblygir camau CAMPUS a bod y modd o'i ddarparu yn eglur. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau y bydd yn cyfeirio at Safonau Gofal Mamolaeth y DU a gymeradwywyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a Choleg Brenhinol y Bydwragedd.

2.13 Fodd bynnag, gwaith yn y tymor canolig sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni gwaith tîm da. Er enghraifft bydd rhai o'r datblygiadau a geisir mewn gwaith tîm amlddisgyblaethol yn dod yn sgîl datblygiad y tîm obstetreg. Canfuom fod llawer yn parhau i fod angen ei wneud i greu tîm integredig o obstetryddion effeithiol sy'n edrych i'r dyfodol. Nid yw rhai o hyd yn cydnabod yr angen am newid. Nid yw'r berthynas gyda chydweithwyr yn y tîm obstetreg

bob amser mor dda ag y byddem efallai yn ei ddisgwyl ac rydym yn ymwybodol nad yw rhai o'r cysylltiadau gydag ymgynghorwyr mewn disgyblaethau eraill yn berffaith ychwaith. Er mwyn parhau i wella, bydd angen parhau â'r camau y mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi eu cyflwyno a hefyd bydd angen i'r clinigwyr unigol fod yn barod i dderbyn newid ac ymroi ar y cyd i weithio yn fwy agos fel tîm.

2.14 Mae rhaglen archwilio amlddisgyblaethol wedi ei sefydlu **[Argymhelliad AGIC 2 (b)]**. Er bod peth cynnydd wedi'i wneud o ran archwiliadau amlddisgyblaethol, mae gwaith eto i'w wneud er mwyn sicrhau bod gan yr holl archwiliadau safonau eglur, a'u bod yn arwain at newid parhaus. Roeddem yn falch i weld bod gan y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Pennaeth Staff gynlluniau i ymdrin â hyn, ac i nodi pynciau i'w harchwilio gan ddefnyddio ystod o yrwyr cenedlaethol a lleol.

2.15 Mae staff o'r holl ddisgyblaethau mamolaeth wedi cydweithio i baratoi canllawiau ynglŷn â'r 'llwybr geni naturiol' o'r enw 'Llwybr i'r Gwasanaethau Mamolaeth'. Cynhelir fforymau wardiau esgor amlddisgyblaethol a diwrnodau llywodraethu clinigol mamolaeth ar draws Gwent yn rheolaidd. Mae hyfforddiant 'Sgiliau a Driliau' wedi'i gynnal ond mae angen gwneud mwy er mwyn sicrhau ei fod ar sail amlddisgyblaethol lawn **[Argymhelliad AGIC 2 (c)]**. Cynhaliwyd diwrnod hyfforddi amlddisgyblaethol ynglŷn â 'Gwaedlif Ôl-eni' ac arweiniodd Llywydd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a Gynaecoleg ddiwrnod hyfforddi amlddisgyblaethol ynglŷn â dehongli cardiotocograffeg ym mis Hydref 2008.

2.16 Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau i dderbyn gwell adroddiadau ynglŷn â materion gweithredol. Rydym wedi gweld tystiolaeth ddogfennol o adroddiadau i'r Bwrdd, a chadarnhaodd ein cyfweliadau â'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol bod trefniadau wedi eu sefydlu i sicrhau y rhoddir gwell adroddiadau i'r Bwrdd. Yn fwy pwysig, mae newid wedi bod yn y diwylliant ar lefel y Bwrdd ac o ganlyniad ceir dull mwy heriol o ymdrin ag adroddiadau **[Argymhelliad AGIC 3 (a)]**. Mae nodiadau cyfarfodydd y Bwrdd wedi cadarnhau i ba raddau y mae'r Bwrdd wedi ystyried

materion mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Sefydlwyd Cyfarfodydd Datblygu a Darparu Adrannol misol sy'n darparu un llwybr i nodi materion y mae angen hysbysu amdanynt. Mae 'dangosfwrdd mamolaeth' yn hwyluso'r gwaith monitro ar lefel y Bwrdd ac yn creu cyfleoedd i wella'r trefniadau rheoli o fewn y gwasanaethau mamolaeth, er y cydnabyddir bod angen ei ddefnyddio yn gyson ar draws pob maes.

2.17 Mae'r newidiadau i drefniadau adrodd y Bwrdd wedi eu hategu gan hyfforddiant ar lefel y Bwrdd a'r uwch reolwyr i sicrhau bod pawb yn gytûn ynglŷn â phryd a sut i hysbysu'r Bwrdd am faterion sy'n peri pryder **[Argymhelliad AGIC 3 (b)]**. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cael cymorth ymgynghorydd i'w gynorthwyo i nodi a gweithredu gwelliannau i'w drefniadau llywodraethu.

2.18 Mae trefniadau rhaeadru gwybodaeth wedi eu hailgyflwyno ar draws y Bwrdd. Mae arweinwyr yn cerdded o amgylch y wardiau yn amlach ac mae'r Bwrdd a'r tîm gweithredol wedi defnyddio'r fethodoleg '1000 o Fywydau' i gefnogi gweithgareddau sydd yn canolbwyntio mwy ar hynny. Penodwyd Cyfarwyddwr Anweithredol Arweiniol ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth **[Argymhelliad AGIC 3 (c)]**. Mae'r broses o ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth ac ymgynghori yn ei chylch wedi rhoi cyfle i'r staff ddeall y broses o bennu cyfeiriad eu gwaith a chymryd rhan ynddi.

Darparu Gwasanaethau Mamolaeth

2.19 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei threfn staffio mamolaeth. O ganlyniad, mae wedi penodi 22 o fydwragedd ychwanegol. Roedd hefyd wedi cynyddu nifer y swyddi cynorthwyol mewn bydwreigiaeth **[Argymhelliad AGIC 4 (a)]**. Mae angen gwneud rhywfaint o waith o hyd i gydbwyso adnoddau rhwng y tri lleoliad y darperir gwasanaethau aciwt ynddynt, ac mae angen datrys y defnydd o fydwragedd i sgwrio ar gyfer y theatr.

2.20 Defnyddiwyd ‘Birthrate Plus’ yn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, sef dull sy’n awgrymu’r lefelau staffio gofynnol er mwyn darparu gwasanaethau mamolaeth, i asesu llwyth gwaith y bydwragedd. Mae asesiad ‘Birthrate Plus’ yn dangos fod digon o fydwragedd a chynorthwywyr gofal bydwreigiaeth ar gael ym mis Awst 2009 i ddarparu gwasanaeth diogel ar draws Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy er mwyn sicrhau y defnyddir yr adnodd hwn yn effeithiol ac yn briodol.

2.21 Cafodd y Cynlluniau Swyddi ar gyfer yr holl Obstetryddion Ymgynghorol a gyflogir gan yr Ymddiriedolaeth eu cadarnhau ym mis Gorffennaf 2009 **[Argymhelliad AGIC 4 (b)]** ac roedd yr holl Obstetryddion Ymgynghorol wedi derbyn eu gwerthusiad blynyddol erbyn ein hymweliad dilynol. Mae’r holl uwch staff bydwreigiaeth wedi derbyn gwerthusiad ac roedd 67% o’r aelodau staff bydwreigiaeth eraill wedi derbyn gwerthusiad erbyn mis Mai 2009 **[Argymhelliad AGIC 4 (c)]**. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi datrys y mater o ddiffinio ‘presenoldeb’ obstetryddion ar y ward esgor a dylid dilyn hyn trwy archwilio, o fewn y chwe mis nesaf, i ba raddau y mae’r obstetryddion ymgynghorol yn cydymffurfio. Er nad yw’n fater y gwnaed argymhelliad yn ei gylch yn ein hadroddiad, codwyd diffyg presenoldeb ymgynghorwyr mewn rhai clinigau a dylai’r Ymddiriedolaeth ymdrin â hyn.

2.22 Roedd un o’r materion yr ymdriniwyd ag ef dan ‘fesurau arbennig’ AGIC heb ei gynnwys fel argymhelliad yn ein hadroddiad terfynol. Roedd hwnnw’n ymwneud â chwblhau adolygiad o feddyginiaeth y fam a’r ffoetws a rhoi’r camau gweithredu ar waith yn dilyn yr adolygiad. Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth ddarparu meddyginiaeth y fam a’r ffoetws yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ym mis Ebrill 2009 ond nid yw’r cynlluniau sydd wedi deillio o’r adolygiad o feddyginiaeth y fam a’r ffoetws wedi eu rhoi ar waith yn llwyr hyd yma.

Diwylliant

2.23 O fewn y gwasanaethau mamolaeth, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn cymryd camau i ddatblygu strwythur a diwylliant mwy unedig. Mae wedi gwella'r trefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd yn ei holl leoliadau ac mae'n dangos arweinyddiaeth gryfach ar draws Gwent. Mae uwch reolwyr o bob disgyblaeth yn gweithio ymhob lleoliad ac mae'r trefniadau ar gyfer cael rheolwr bydwreigiaeth ar ddyletswydd yn atgyfnerthu dull gweithio cyffredin ar draws Gwent.

2.24 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd nifer o gamau i gyfathrebu'n well gyda'r staff a defnyddwyr ei wasanaethau mamolaeth **[Argymhelliad AGIC 5 (a)]**. Mae rhai o'r rhain wedi eu nodi uchod, ac mae eraill yn cynnwys:

- Cyflwyno cylchlythyr misol, 'Maternity Matters'
- Sesiynau Cyfathrebu a drefnir gan y Rheolwr Cyffredinol
- Trafodaethau cynefino'r Pennaeth Bydwreigiaeth gyda staff y gwasanaeth mamolaeth
- Strwythur cyfarfodydd o fewn y gwasanaethau mamolaeth i gefnogi trefniadau cyfathrebu da.

Fodd bynnag, ceir anawsterau parhaus o ran ysbryd ac ymddygiad y staff mamolaeth yn Nevill Hall ac mae gwella'r trefniadau cyfathrebu gyda bydwragedd cymunedol yn parhau i fod yn dalcen caled, yn enwedig yng ngogledd yr Ymddiriedolaeth.

2.25 Ceisir safbwyntiau defnyddwyr y gwasanaethau mamolaeth, er enghraifft trwy ofyn iddynt lenwi holiaduron wrth adael y ward. Mae Tîm Gwella Ansawdd wedi ei sefydlu ac mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys yr angen i:

- Gynnwys defnyddwyr ymhob agwedd ar y gofal y maent yn ei ddarparu

- Nodi diffygion mewn ansawdd gofal a rhoi newid ar waith
- Hysbysu defnyddwyr am fentrau ansawdd ac ystadegau'r uned trwy gylchlythyr defnyddwyr.

2.26 Mae'r drefn o reoli cwynion wedi gwella rhywfaint, a llwyddwyd i leihau nifer yr ymchwiliadau i gwynion sydd heb eu cwblhau. Mae'r Rheolwr Cyffredinol yn monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r safonau ac yn llofnodi i gadarnhau y cwblhawyd ymchwiliad pob cwyn. Mae'r rheolwyr yn trafod gyda defnyddwyr y gwasanaeth o dro i dro wrth gerdded o amgylch y wardiau.

2.27 Ategir y trefniadau cyfathrebu agored gan ddiwrnodau llywodraethu clinigol y gyfarwyddiaeth a chylchlythyron ac mae Polisi Cwynion a Pholisi Adrodd am Ddigwyddiadau yr Ymddiriedolaeth yn nodi'n eglur pa mor bwysig yw cyfathrebu agored a didwyll **[Argymhelliad AGIC 5 (b)]**. Cadarnhaodd trafodaethau gyda'r staff bod y trefniadau cyfathrebu wedi gwella ond bod angen gwneud ymdrech o hyd i gynnwys y staff yn y prosesau cyfathrebu. Gwelwyd tystiolaeth eglur bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ond roedd tystiolaeth hefyd yn dangos nad oedd rhai o'r staff yn ymwybodol o'r cyfathrebu hwnnw.

2.28 Mae mwy a mwy o staff yn cydnabod y gwelliannau sydd wedi eu gwneud ynglŷn ag adnoddau, cyfarwyddo a chyfathrebu yn y gwasanaethau mamolaeth **[Argymhelliad AGIC 5 (c)]**. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno trefniadau i gynnwys y staff mamolaeth wrth ddatblygu gwasanaethau. Trwy fentrau hyfforddi a datblygu, mae'n dangos pa mor bwysig iddi yw cael gweithlu profiadol sydd wedi eu hyfforddi'n dda. Mae'n hyrwyddo'r gwelliannau sydd wedi ei wneud gan y staff bydwreigiaeth ac yn dangos i ba raddau y mae'n gwerthfawrogi'r staff. Fel un arwydd o ysbryd gwell a phrosesau rheoli gwell, mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ymhlith y staff bydwreigiaeth wedi gostwng. Gwelsom yn ein cyfarfodydd gyda'r staff bod ysbryd a hyder yn cael ei ailgodi, er bod lleiafrif bychan o'r staff yn parhau i fod yn anfodlon. Er mwyn creu newid i'r aelodau staff hynny mae gofyn

iddynt hwythau, yn ogystal â'r Ymddiriedolaeth, gymryd camau ac rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth i barhau â'r camau y mae'n eu cymryd.

2.29 Un mater a oedd wedi ei gynnwys yn ein llythyr i'r Ymddiriedolaeth ar 1 Rhagfyr 2008 ond nid yn ein hadroddiad terfynol oedd y mater o 'fwlio' ymhlith staff y gwasanaeth mamolaeth yn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gwneud gwaith ynglŷn â'r mater hwn. Mae llwybrau ar wahân i'r rheolwyr llinell y gall staff eu dilyn yn yr Ymddiriedolaeth i godi pryderon. Un o'r rhain yw polisi 'chwythu'r chwiban' yr Ymddiriedolaeth. Hefyd, mae'r staff yn gallu cyfeirio'u hunain at wasanaeth lles gweithwyr yr Ymddiriedolaeth am gyngor a chefnogaeth gyfrinachol. Y gwasanaeth mamolaeth yw gwasanaeth cyntaf yr Ymddiriedolaeth i gymryd rhan yn y 'Cynllun Cyswllt Cyfrinachol' sy'n ceisio ategu materion urddas a pharch yn y gweithle.

Rheoli Risg

2.30 Mae strwythurau rheoli risg yng Ngwent wedi eu hadolygu a'u nodi yn 'Strengthening Gwent Healthcare as a Learning Organisation'. Cryfhawyd y gwaith o ddatblygu'r trefniadau hyn ar gyfer rheoli risg trwy benodi 'Pennaeth Dysgu' **[Argymhelliad AGIC 6]**.

2.31 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei threfniadau ar gyfer cynnal ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol anffodus. Sefydlwyd hyfforddiant i swyddogion ymchwilio ac mae nifer o'r staff wedi derbyn yr hyfforddiant **[Argymhelliad AGIC 7 (a)]**. Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith eto i'w wneud yn y maes hwn, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod hynny. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio bellach yn arwain y mater hwn ac yn cymryd camau i sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i ddigwyddiadau ar y lefel briodol. Mae'r cylch o ymchwilio, dysgu, lledaenu a newid yn cael sylw - gan gynnwys sefydlu Pwyllgor Dysgu ar draws yr Ymddiriedolaeth gan Gyfarwyddwr Meddygol yr Ymddiriedolaeth. Mae adrodd ynglŷn â digwyddiadau, cynnal ymchwiliadau a dysgu gwersi hefyd yn faes sy'n flaenoriaeth i Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwent.

2.32 Mae Llif Gwaith Trawsnewid Llywodraethu Clinigol wedi ei sefydlu er mwyn bwrw ymlaen ag adolygiad o Bolisi Digwyddiadau Difrifol yr Ymddiriedolaeth. Penderfynir ar y meini prawf ar gyfer dewis swyddogion ymchwilio fel rhan o'r gwaith hwnnw **[Argymhelliad AGIC 7 (b)]**. Dylid gwneud y gwaith ar y meini prawf ar frys. Hysbysir Tîm Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am ddigwyddiadau fel rhan o'r broses ymchwilio **[Argymhelliad AGIC 7 (c)]**. Mae ymchwiliadau yn cael eu cynnal yn fwy prydlon o ganlyniad i'r ffocws gwell a sefydlwyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n cadeirio'r Cyfarfodydd Digwyddiadau Difrifol. Mae'n cymryd gofal arbennig i bennu amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith **[Argymhelliad AGIC 7 (ch)]**.

2.33 Yn ystod cyfweliadau gydag aelodau staff y gwasanaethau mamolaeth, dywedwyd wrthym fod presenoldeb staff mewn cyfarfodydd rheoli risg lleol wedi gwella, yn enwedig staff a oedd wedi sbarduno adroddiadau digwyddiadau, er nad oedd cofnod ffurfiol o hynny **[Argymhelliad AGIC 7 (d)]**.

2.34 Mae'r staff sy'n gyfrifol am gofnodi gwybodaeth ar y system DATIX wedi gallu cyfarfod â'i gilydd i rannu eu profiadau ynglŷn â'r gwaith hwnnw ac mae canlyniadau cadarnhaol wedi eu hadrodd i'r rheolwyr o ganlyniad **[Argymhelliad AGIC 8]**. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i'w chael yn anodd ymdrin â'r pentwr o ddigwyddiadau sydd wedi cronni, ac mae unigolion yn yr adran Rheoli Risg dan bwysau oherwydd eu llwyth gwaith. Mae'r tîm gweithredol yn cydnabod hyn ac yn ymdrin â hynny fel blaenoriaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo'r syniad o ddatblygu system DATIX ar y we, ac mae'n disgwyl am gael dyrannu cyllid cyn dechrau ei rhoi ar waith. Bydd y system hon ar y we yn ei gwneud yn haws dadansoddi a dysgu gwersi o'r system adrodd a rheoli digwyddiadau **[Argymhelliad AGIC 9]**. Fodd bynnag, mae'n bwysig i'r sefydliad beidio ag oedi cyn ymdrin â'r materion hyn wrth aros am y system ar y we. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu 'Pwyllgor Dysgu' a fydd yn datblygu'r trefniadau i nodi digwyddiadau a dysgu gwersi ohonynt.

2.35 Mae'r adroddiadau ymchwiliad i ddigwyddiadau yn nodi'r materion a nodwyd yn sgil y digwyddiadau, ynghyd â'r camau gweithredu arfaethedig, y sawl sydd wedi ei ddynodi i fod yn gyfrifol am y camau gweithredu, a'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau **[Argymhelliad AGIC 10 (a), (b) ac (c)]**. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod pob cam gweithredu yn gam CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) a dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau y caiff y cynlluniau eu monitro er mwyn gofalu eu bod yn cael eu cyflawni yn brydlon.

3. Asesiad o Gynnydd yr Ymddiriedolaeth

3.1 O ran y materion a nodwyd gennym yn ein llythyrau ar 1 Mai 2008 a 1 Rhagfyr 2008, a gadarnhawyd yn ein hadroddiad ffurfiol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2009, rydym o'r farn bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da. Yn benodol, mae'r camau canlynol wedi eu cwblhau:

- Mae Pennaeth Bydwreigiaeth wedi ei benodi.

- Penodwyd Cyfarwyddwr Clinigol (bellach yn Bennaeth Staff) ar gyfer Obstetreg.

- Mae gallu rheoli wedi ei wella ar y lefel uchaf trwy gynyddu adnoddau, hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth ar lefel bydwragedd Band Wyth.

- Mae cynlluniau swyddi wedi eu sefydlu ar gyfer Obstetryddion Ymgynghorol.

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu'r hyn y mae arni ei angen o ran 'presenoldeb' Ymgynghorwyr ar wardiau esgor.

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth. Cyflwynir hon i'r Bwrdd cyn i'r Ymddiriedolaeth fabwysiadu statws BILI newydd ym mis Hydref.

- Mae'r Bwrdd wedi sefydlu trefniadau ar gyfer dwyn materion gweithredol perthnasol i'w sylw ac mae wedi dangos ymagwedd fwy cadarn tuag at fonitro a herio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth.

- Mae'r trefniadau ar gyfer darparu Meddyginiaeth i'r Fam a'r Ffoetws wedi eu diwygio.

- Mae pob obstetrydd a'r holl uwch staff bydwreigiaeth wedi derbyn eu gwerthusiadau blynyddol.

- Gwnaed gwelliannau i'r trefniadau staffio bydwreigiaeth, o ran nifer y bydwragedd a'r staff cynorthwyol ond hefyd o ran arweinyddiaeth, gallu a hyfforddiant.

3.2 Yn ychwanegol, bu cynnydd o ran:

- Datblygu gwaith tîm a gwaith amlddisgyblaethol.

- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r materion y mae angen ymdrin â hwy o ran ysbryd y staff a sefydlu strategaethau i wella ysbryd a hyder yn y gwasanaethau mamolaeth.

- Gweithredu gwerthusiadau i holl staff y gwasanaethau mamolaeth.

- Gweithredu'r cynllun i gyflwyno gwasanaethau Meddyginiaeth y Fam a'r Ffoetws yn Ysbyty Brenhinol Gwent ynghyd ag Ysbyty Neville Hall.

- Camau i ddatblygu diwylliant cyffredin ar draws yr Ymddiriedolaeth.

- Ailgodi ysbryd a hyder yn y gwasanaethau mamolaeth.

- Mae peth gwaith wedi ei wneud o ran adolygu a gweithredu newidiadau angenrheidiol ynglŷn â rheoli risg.

3.3 Wrth asesu lefel y cynnydd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent o ran bodloni'r argymhellion a wnaed gennym ym mis Chwefror 2009, rydym wedi ceisio barn Cyngor Iechyd Cymunedol Gwent (CIC) a'r 5 BILI sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau mamolaeth gan yr Ymddiriedolaeth.

3.4 Rydym wedi dod i'r casgliad y bu digon o gynnydd a gwelliannau i gyfiawnhau diddymu'r 'Mesurau Arbennig' o Wasanaethau Mamolaeth Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gadw llygad ar y gwasanaethau mamolaeth er mwyn sicrhau bod y gwaith ychwanegol sydd ei angen yn y meysydd uchod yn cael eu datblygu a'u hymgorffori. Byddwn felly yn ymweld â'r gwasanaethau mamolaeth unwaith eto yn 2010 yn rhan o broses ledled Cymru yn dilyn y gwaith a wnaethpwyd gennym yn 2007[1].

Byddwn hefyd yn adolygu cynnydd BILI newydd Aneurin Bevan o ran mynd i'r afael â'r materion arwain, rheoli a llywodraethu mwy cyffredinol ar draws yr Ymddiriedolaeth a nodwyd yn rhan o'n hadolygiad o'r gwasanaethau mamolaeth, a'r gwaith adolygu arall yr ydym wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

[1] Adolygiad Cymru Gyfan o'r Gwasanaethau Mamolaeth – Canfyddiadau a Themau o'r Adolygiad Cymru Gyfan – Awst 2007

Atodiad A

Argymhellion o adroddiad AGIC yn dilyn ei adolygiad o'r gwasanaethau mamolaeth a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Arwain a Rheoli

1. Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau ar unwaith i sicrhau arweinyddiaeth dda a rheolaeth effeithiol yn y gwasanaethau mamolaeth. Yn benodol, dylai'r Ymddiriedolaeth:

    a. Weithredu'n gyflym i benodi Pennaeth Bydwreigiaeth, a dylai'r Rheolwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Nyrsio wneud trefniadau i alluogi'r Pennaeth Bydwreigiaeth i ddarparu adroddiadau'n uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth pan fo hynny'n briodol.

    b. Sicrhau y cymerir camau i gynyddu ei gallu i arwain a rheoli Obstetryddion.

    c. Sicrhau gwaith tîm cydweithredol rhwng rheolwr cyffredinol, meddygol a bydwreigiaeth y gwasanaethau mamolaeth.

    ch. Nodi gweledigaeth eglur ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth, penderfynu ar y llwybr tuag at y weledigaeth honno a rhoi cynllun ar waith i'w gwireddu.

2. Dylai'r Ymddiriedolaeth:

    a. Lunio strategaeth eglur ar gyfer gweithio fel tîm yn y gwasanaethau mamolaeth.

b. Cynllunio a chyflawni gwelliannau i waith tîm amlddisgyblaethol yn y gwasanaethau mamolaeth yn unol â'r strategaeth honno.

c. Datblygu hyfforddiant, archwiliadau a phrosesau eraill i gefnogi'r syniad o waith tîm amlddisgyblaethol.

3. Dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ddatblygu ffyrdd o sicrhau ei fod yn cael ei hysbysu am weithrediadau'r Ymddiriedolaeth y mae angen rhoi sylw iddynt ar lefel strategol ac annog diwylliant cyffredin yn y sefydliad. Mae'r canlynol ymhlith y camau angenrheidiol y dylai'r Bwrdd eu cymryd:

a. Sefydlu trothwyon i nodi pryd y dylid hysbysu'r Bwrdd am faterion gweithredol.

b. Cyflwyno dulliau effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng cyfarwyddiaethau gweithredol, y tîm gweithredol a'r Bwrdd.

c. Nodi a datblygu ffyrdd o hybu diwylliant cyffredin yn yr Ymddiriedolaeth, gan adeiladu ar ei chryfder o ran amrywiaeth.

Darpariaeth Gwasanaethau Mamolaeth

4. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei threfniadau staffio'n cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau mamolaeth da ac effeithiol. Yn benodol, dylai:

a. Adolygu nifer y staff bydwreigiaeth a llenwi unrhyw swyddi gwag a nodwyd neu swyddi ychwanegol sydd eu hangen gydag aelodau staff priodol.

b. Sicrhau bod cynlluniau swyddi wedi'u sefydlu ar gyfer pob obstetrydd ymgynghorol.

c. Sicrhau y cynhelir prosesau gwerthuso blynyddol ar gyfer holl aelodau'r staff.

Diwylliant

5. Dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu gwaith i greu ac annog diwylliant cyffredin yn yr Ymddiriedolaeth gan adeiladu ar y cryfderau yn ei sefydliad amrywiol. Wrth wneud hynny, dylid rhoi sylw i:

a. Adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu ag aelodau staff a defnyddwyr y gwasanaethau mamolaeth a gweithredu gwelliannau a nodwyd.

b. Adnewyddu ei hymroddiad i ddiwylliant agored, didwyll, 'dim bai' a diffinio ffyrdd ar gyfer datblygu diwylliant o ddysgu yn y gwasanaethau mamolaeth.

c. Ailgodi ysbryd a hyder yn y gwasanaethau mamolaeth.

Rheoli Risg

6. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei strwythurau, ei systemau, ei gweithdrefnau a'i chanllawiau cyfredol o ran rheoli risg er mwyn sicrhau eu bod yn eglur ac yn gyson a'i gilydd.

7. Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i sicrhau bod ei pholisi, ei gweithdrefnau a chanllawiau o ran rheoli risg yn cael eu gweithredu'n llawn. Yn benodol, o ran adrodd am ddigwyddiadau a'u rheoli, dylai'r Ymddiriedolaeth:

a. Sefydlu rhaglen hyfforddi ar gyfer unigolion sy'n gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau er mwyn sicrhau y cynhelir ymchwiliadau'n briodol a bod adroddiadau'n gywir ac o ansawdd da.

b. Cytuno ar a chyhoeddi meini prawf ar gyfer penodi swyddogion a thimau ymchwilio a sicrhau bod ganddynt y pwerau llawn i gynnal yr ymchwiliad a gwneud argymhellion.

c. Sicrhau y cynhelir ymchwiliad priodol i bob digwyddiad difrifol.

ch. Sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau ac adrodd arnynt yn gwneud hynny mewn modd prydlon.

d. Fel rhan o'i hymroddiad i gynnwys y staff yn y gwaith o reoli digwyddiadau, dylai ei gwneud yn bosibl iddynt fynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg lleol o bryd i'w gilydd.

8. Dylid cynnig cyfleoedd i aelodau staff sy'n gyfrifol am gofnodi gwybodaeth ar y system DATIX i rannu profiadau a datblygu dulliau cyson o wneud y gwaith hwnnw.

9. Dylai'r Ymddiriedolaeth ail-archwilio ei dulliau o ran adborth ar yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau a chyflawni unrhyw welliannau a nodwyd.

10. Dylai cynlluniau gweithredu a lunnir mewn ymateb i faterion a nodwyd trwy ymchwilio i ddigwyddiadau:

a. Fynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd trwy'r ymchwiliad.

b. Bodloni meini prawf 'CAMPUS'.

c. Bod yn gysylltiedig â'r swyddogaeth/unigolyn sy'n gyfrifol am sicrhau y cymerir y camau.

Atodiad B

Llythyr Prif Weithredwr AGIC at yr Ymddiriedolaeth 1 Mai 2008

Adolygiad Arbennig o'r Gwasanaethau Mamolaeth: Canfyddiadau Cychwynnol

Ysgrifennaf yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 30 Ebrill yn Llanfrechfa Grange i nodi yn ffurfiol y materion o bryder uniongyrchol a godwyd gan yr adolygiad arbennig o'r Gwasanaethau Mamolaeth y mae Arolygiaeth Gofal iechyd Cymru wrthi'n ei gynnal.

Fel y gwyddoch, cwblhawyd cam cyntaf ein gwaith maes ar 25 Ebrill 2008 ond mae angen cyfweld nifer o bobl o hyd ac mae gennym waith dadansoddi pellach i'w gwblhau. Fodd bynnag, mae'r gwaith maes a wnaethpwyd hyn yn hyn wedi amlygu nifer o faterion sy'n codi pryderon uniongyrchol, ac mae angen i'r Ymddiriedolaeth ymdrin â hwy fel mater o flaenoriaeth.

Diogelwch menywod a'u babanod yw ein pryder cyffredinol ac mae'r graddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn sicrhau hynny wedi bod yn ganolog i'n hadolygiad. Oherwydd yr hyn yr ydym wedi ei ddarllen, ei weld a'i glywed, rydym yn pryderu bod risgiau cynyddol i famau a babanod sy'n derbyn gofal gan Wasanaethau Mamolaeth Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Er nad oedd y risgiau hynny mor ddifrifol fel yr ystyrid y gwasanaethau'n 'anniogel' ar ddydd Gwener 25 Ebrill, roedd y ffin ddiogelwch yn fach. Yn ogystal, mae tystiolaeth yn awgrymu mai dirywio y mae safonau diogelwch yr Ymddiriedolaeth yn y gwasanaethau mamolaeth ac ystyriwn na ellir gohirio'r camau gweithredu tan ar ôl i'r gwaith maes gael ei gwblhau a'n hadroddiad gael ei gyhoeddi.

Ystyriwn fod dau ffactor allweddol sy'n cyfrannu tuag at ddirywiad yn lefel y diogelwch a ddarperir yn y gwasanaethau mamolaeth, sef:

- Trefniadau annigonol o ran arwain a rheoli'r Gwasanaethau Mamolaeth.
- Trefniadau staffio sydd ymhell o fod yn berffaith.

Trefniadau annigonol o ran arwain a rheoli'r Gwasanaethau Mamolaeth

O ran rheoli'r Gwasanaethau Mamolaeth, ystyriwn fod y materion canlynol yn cael effaith allweddol:

- Nid yw swydd y Pennaeth Bydwreigiaeth wedi'i llenwi a gall gymryd peth amser i'r Ymddiriedolaeth recriwtio rhywun i'r swydd.
- Mae un o'r ddau reolwr bydwreigiaeth band 8 wedi ymddiswyddo.
- Mae rheolwyr/arweinwyr bydwreigiaeth eraill dan bwysau sylweddol, a gall rhai ohonynt fod yn ystyried gadael pan fydd cyfle'n codi. Mae ymdeimlad nad ydynt yn derbyn cefnogaeth ar adeg o bwysau sylweddol a chynyddol.
- Mae rheoli'r obstetryddion yn amlwg yn achosi problemau. Er bod gweledigaeth y Pennaeth Staff ar gyfer 2013 o bosibl yn briodol, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod gan yr Ymddiriedolaeth y gallu i weithredu'r cynllun hwnnw. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth ychwaith, bod cynllun dros dro yn cael ei weithredu er mwyn ymdrin â'r materion sy'n peri problemau ar hyn o bryd ym maes Obstetreg. Fel grŵp, mae'n amlwg bod yr Obstetryddion yn cyflwyno heriau, ac er bod gobaith y bydd penodiad newydd gyda chyfrifoldebau fel arweinydd clinigol yn gymorth i ymdrin â'r sefyllfa, nid ydym yn credu y bydd hynny ynddo'i hun yn datrys y problemau.
- Mae'r materion sy'n codi ym maes ymrwymiad Ymgynghorwyr i obstetreg yn llai eglur. Mae'n ymddangos bod gan y rhan fwyaf gynlluniau swydd sy'n nodi y dylent ymroddi'r mwyafrif o'u hamser i gynaecoleg. Rydym wedi clywed o rai ffynonellau ei bod yn anodd cysylltu â rhai ohonynt ac mai peth prin oedd eu gweld yn yr unedau tan yn ddiweddar.

- Mae'n ymddangos bod dibyniaeth sylweddol ar Ymgynghorwyr 'sy'n barod i gynorthwyo' a thueddir i alw arnynt oherwydd eu bod yn ymateb neu'n 'byw gerllaw'.
- Mae tystiolaeth nad yw'r dulliau gwaith amlddisgyblaethol ym maes gwasanaethau mamolaeth wedi eu datblygu mor dda ag y gallent fod, ac mae graddau'r weledigaeth a'r ymrwymiad cyffredin i'r gwasanaethau mamolaeth (megis hybu Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol yn briodol) yn gyfyngedig.
- Mae'n eglur i'r Tîm Adolygu bod Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi eu hysbysu am y materion ers peth amser. Mae'n llai eglur i ni a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi ei hysbysu'n llawn amdanynt. Hyd yn hyn, nid yw'r Tîm Adolygu wedi gallu canfod tystiolaeth bod y tîm gweithredol na'r Bwrdd wedi gweithredu gyda'r nod o wella rheolaeth ac arweinyddiaeth y Gwasanaethau Mamolaeth.

Trefniadau Staffio sydd Ymhell o Fod yn Berffaith

O ran y trefniadau staffio, ystyriwn fod y materion canlynol yn cael effaith:

- Nid oes digon o staff bydwreigiaeth. Mae niferoedd y bydwragedd sefydledig, er enghraifft ar y ward esgor yn Ysbyty Brenhinol Gwent, yn ymddangos yn annigonol ar gyfer maint y ward a lefel y gweithgaredd. Yr ydym yn deall bod bydwragedd band 7 i fod yn ychwanegol at y nifer gofynnol, ond maent yn aml yn rhoi gofal uniongyrchol i fenywod sy'n esgor, tra eu bod yn rheoli'r holl uned famolaeth ac nid y ward esgor yn unig. Nid yw'r rota'n cynnwys y nifer sefydledig o fydwragedd yn aml (oherwydd salwch ac ati) ac o ganlyniad, symudir bydwragedd o fannau o risg llai uchel i fannau o fwy o risg gan adael, er enghraifft, y ward risg isel yn brin iawn o staff. Hefyd, gelwir ar fydwragedd cymunedol i ddod i mewn yn fwy a mwy aml pan fyddant 'ar alwad' yn ystod y nos a gofyn iddynt weithio sifft lawn ar ôl diwrnod llawn o waith. Er y lleolir hwy, mewn egwyddor, mewn mannau risg isel, ni chedwir at hyn bob amser.

- Mae'n anodd cynnal cymysgedd sgiliau eang oherwydd dau ffactor. Yn gyntaf, nid oes digon o fydwragedd profiadol ar gael i weithio yn y mannau risg uchel yn yr uned. Gelwir ar y staff cymunedol a bydwragedd yr unedau risg isel yn aml i ddod i weithio yn y mannau risg uchel. Er gwaethaf eu blynyddoedd lawer o brofiad, nid oes gan y rhain ddigon o'r sgiliau, wedi eu hymarfer yn ddiweddar, i gyflawni swyddogaethau yn gywir mewn amgylcheddau risg uwch. Yn ail, mae'r rhai a recriwtiwyd ddiweddaraf yn tueddu i fod ymhlith y rhai sydd wedi cymhwyso yn fwyaf diweddar. Mae hyn ei hunan yn dod â mantais sylweddol i'r Ymddiriedolaeth o ran yr hyfforddiant diweddar, brwdfrydedd ac ati, y mae staff o'r fath yn darparu. Fodd bynnag, nid oes gan staff o'r fath y profiad i reoli gofal risg uchel heb gefnogaeth. Yn gysylltiedig â cholli mwy o staff profiadol yn y tymor byr, mae'n gwanhau'r ystod o brofiad sydd ar gael.

- Nid oes gennym farn ar ad-drefniad diweddar y gwasanaethau bydwreigiaeth gan yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, nodwyd yr effaith mewn dau faes sy'n berthnasol i'r adolygiad. Yn gyntaf, ystyrir nifer o fydwragedd a oedd cyn hyn yn rhai band 7, bellach yn fydwragedd band 6. Yn arferol, byddai bydwragedd band 6 yn cefnogi'r bydwragedd band 7 ac yn gweithredu ar eu rhan pan fyddai angen. Oherwydd yr anfodlonrwydd o ganlyniad i'r ad-drefniad, mae amharodrwydd eang i dderbyn y swyddogaeth hon. Yn ail, er nad dyma'r unig ffactor, mae'r ad-drefniad wedi effeithio'n fawr ar ysbryd y staff. Heb eithriad, rydym wedi clywed am ysbryd isel ymhlith bydwragedd. Er bod y materion rheoli a nodir uchod, yn ein barn ni, yn fwy tebygol o fod wedi cael effaith barhaus ar lefel y gefnogaeth y mae'r staff yn ystyried y maent yn ei derbyn, eu hyder yn eu rheolwyr a'u harweinwyr a'r graddau y maent yn ystyried y'u hwylusir yn eu gwaith, mae'r tarfu anorfod sy'n gysylltiedig ag unrhyw ad-drefnu, wedi chwarae rhan hefyd.

- Dair blynedd yn ôl, awgrymodd 'Birthrate plus' bod yr Ymddiriedolaeth 31 o fydwragedd yn brin o'r hyn a oedd yn ofynnol. Mae nifer y genedigaethau wedi cynyddu ers yr adeg honno a phe ail-archwilir hynny, yn ôl y mesur hwn, byddai'r Ymddiriedolaeth o bosibl hyd yn oed yn fwy prin o'r niferoedd sefydledig. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i ymdrin â hyn trwy gynnig y dylid sefydlu 13 o swyddi bydwreigiaeth newydd, nifer gyfyngedig o'r rheini sydd wedi eu llenwi hyd yn hyn.

- Rhoddir sylwadau uchod ynglŷn ag ymroddiad yr obstetryddion a'r graddau y maent ar gael.

Rydym yn ymwybodol bod yr Ymddiriedolaeth wedi ymgeisio, yn aflwyddiannus, i'r Byrddau Iechyd Lleol am arian ychwanegol er mwyn goresgyn peth o'r prinder bydwragedd. Waeth a yw'r Ymddiriedolaeth yn llwyddiannus ai peidio wrth gael arian ychwanegol o'r ffynhonnell honno, rhaid gwneud rhywbeth ar frys i ymdrin â'r broblem hon. Os nad oes arian ar gael gan y Byrddau Iechyd Lleol, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth nodi cyllid sydd eisoes ar gael iddi neu ystyried cwtogi gwasanaethau eraill er mwyn buddsoddi mewn gweithgaredd craidd a diogelwch o fewn y gwasanaethau mamolaeth.

Fel y cytunwyd yn ein cyfarfod, mae angen i'r Ymddiriedolaeth ymdrin â'r materion a amlinellir uchod fel mater o flaenoriaeth ac fe wnaethoch gytuno i ddarparu cynllun gweithredu arfaethedig i AGIC erbyn dydd Gwener 9 Mai 2008. Byddwn ninnau yn ein tro yn rhoi ein sylwadau ar y cynllun gweithredu o fewn wythnos o'i dderbyn.

Cyn argraffu'r adroddiad am yr Adolygiad cyfredol, rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar y materion a godwyd, a gwneir y trefniadau ar gyfer hwnnw fel rhan o broses y cynllun gweithredu.

Dymunaf gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am drefnu i ni gyfarfod ddoe ac am y sylw a'r ymateb cadarnhaol a dderbyniwyd gennych chi a'ch tîm. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn mynegi ein diolch i Wendy Warren, Grant Robinson, Stephen Hunter a Carol Shillabeer.

Atodiad C

Llythyr Prif Weithredwr AGIC at yr Ymddiriedolaeth 1 Rhagfyr 2008

Ar adeg ein cyfarfod 'mesurau arbennig' diwethaf cytunodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ddarparu cyfres o gamau cynnydd y byddem yn disgwyl i'r Ymddiriedolaeth eu bodloni er mwyn cwblhau'r gwaith ar eich cynllun gweithredu i sefyllfa fel y gellid diddymu'r 'mesurau arbennig' ar eich gwasanaethau mamolaeth. Gellid dilyn y trefniadau rheoli arferol yn y Rhanbarth wedi hynny, wrth reoli perfformiad y cynllun yn y dyfodol.

Rydym bellach wedi cael cyfle i drafod hyn gyda'r Rhanbarth ac mae'r papur sydd ynghlwm yn rhestru'r materion y byddem yn disgwyl gweld cynnydd pellach arnynt. Byddwn yn falch i drafod hyn yn ein cyfarfod nesaf ar 10 Rhagfyr.

Er bod mwy o waith i'w wneud a bod angen i ni dderbyn sicrwydd ynglŷn ag ef, dymunaf bwysleisio ein bod yn cydnabod i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwaith ar elfennau eraill o'r cynllun gweithredu a'r hyn a gyflawnwyd yn benodol ynglŷn â'r materion bydwreigiaeth.

'Mesurau Arbennig' – Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Elfennau o Gynllun Gweithredu'r Ymddiriedolaeth y dylid dangos cynnydd pellach ynglŷn â hwy:

1. **Eitem 3 y Cynllun Gweithredu:** Rheoli'r tîm obstetryddion - dymunwn weld penodi rhywun i'r swydd cyfarwyddwr clinigol a chael sicrwydd y bydd gallu'r obstetryddion i weithio fel tîm yn gwella.

2. **Eitem 4 y Cynllun Gweithredu:** Ymrwymiad Ymgynghorwyr i Obstetreg – ar ôl penodi'r Cyfarwyddwr Clinigol byddem yn dymuno gweld cynlluniau swydd ar gyfer holl aelodau'r tîm a datrys y mater o 'bresenoldeb' ar y ward esgor unwaith ac am byth. Mae cynnydd eisoes wedi ei wneud ynglŷn â hyn.

3. **Eitem 5 y Cynllun Gweithredu:** Dymunwn weld mwy o dystiolaeth o ddull gwaith amlddisgyblaethol yn y gwasanaethau mamolaeth a chredwn y dylid darparu sicrwydd trwy'r gwaith y mae'r Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol yn ei wneud gyda chi. Rydym wedi cytuno y bydd yr Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol (Patrick Coyle) yn darparu adroddiad ynglŷn â'r materion hyn a'r mater uchod erbyn mis Mawrth.

4. **Eitem 6 y Cynllun Gweithredu:** Byddem yn dymuno gweld tystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth yn darparu gweledigaeth a strategaeth gyffredin ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth. Byddai copi o'r strategaeth yn rhoi'r sicrwydd yr ydym yn ei geisio.

5. **Eitemau 7 a 12 y Cynllun Gweithredu:** Byddem yn hoffi gweld cynnydd pellach ar lefel y Bwrdd ynglŷn â'r cyflwyniad y gwnaethoch ei roi yn ein cyfarfod ar 28/10/08. Rydym yn rhagweld y gellid cyflawni hyn trwy waith Keith Thompson gyda chi a thrwy archwilio agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd.

6. **Eitem 10 y Cynllun Gweithredu:** O ran ysbryd y staff, byddem yn hoffi gweld tystiolaeth o waith a wneir gan yr Ymddiriedolaeth i nodi, cytuno a deall y mater hwn ac ymrwymiad i gymryd camau i ailgodi ysbryd yn yr Ymddiriedolaeth.

   Yn ychwanegol: Codwyd y mater o 'fwlio' yn ein cyfarfod ar 28/10/08. Rydym yn gwybod, yn sgil gwaith arall yr ydym wedi ei wneud yn yr Ymddiriedolaeth, bod peth gwaith wedi ei gynllunio ynglŷn â hynny. O ystyried ers faint o amser y mae'r

Ymddiriedolaeth wedi bod yn ymwybodol o'r mater hwn, dymunwn fod yn fodlon bod camau ymarferol wedi eu sefydlu i ymdrin â'r materion.

7. **Eitem 11 y Cynllun Gweithredu:** Meddyginiaeth y Ffoetws - Byddem yn hoffi gweld tystiolaeth o gwblhau'r Adolygiad (adroddiad yr Adolygiad?). Rydym yn gwybod bod cynllun i symud yr uned hon o Ysbyty Nevill Hall i Ysbyty Brenhinol Gwent. Dymunwn weld tystiolaeth y cymerwyd camau sylweddol o ran cyflawni hynny.

Perthynas rhwng 'Mesurau Arbennig' a'r Argymhellion yn Adroddiad Terfynol AGIC

Argymhellion yn Adroddiad Terfynol AGIC	**Camau yn Ymwneud â'r Mesurau Arbennig**
Arwain a Rheoli 1. Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau ar unwaith i sicrhau arweinyddiaeth dda a rheolaeth effeithiol yn y gwasanaethau mamolaeth. Yn benodol, dylai'r Ymddiriedolaeth: a. Weithredu'n gyflym i benodi Pennaeth Bydwreigiaeth, a dylai'r Rheolwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Nyrsio wneud trefniadau i alluogi'r Pennaeth Bydwreigiaeth i ddarparu adroddiadau'n uniongyrchol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, pan fo hynny'n briodol. b. Sicrhau y cymerir camau i gynyddu ei gallu i arwain a rheoli Obstetryddion. c. Sicrhau gwaith tîm cydweithredol rhwng rheolwyr cyffredinol, meddygol a bydwreigiaeth y gwasanaethau mamolaeth. ch. Nodi gweledigaeth eglur ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth, penderfynu ar y llwybr tuag at y weledigaeth honno a rhoi cynllun ar waith i'w gwireddu.	Pwyntiau Bwled 1 i 5 o'r llythyr dyddiedig 1 Mai 2008 Rhifau paragraff 1, 2, a 6 o'r llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr 2008

2. Dylai'r Ymddiriedolaeth: a. Lunio strategaeth eglur ar gyfer gweithio fel tîm yn y gwasanaethau mamolaeth. b. Cynllunio a chyflawni gwelliannau i waith tîm amlddisgyblaethol yn y gwasanaethau mamolaeth yn unol â'r strategaeth honno. c. Datblygu hyfforddiant, archwiliadau a phrosesau eraill i gefnogi'r syniad o waith tîm amlddisgyblaethol.	Pwyntiau Bwled 4, 5, 6 a 7 o'r llythyr dyddiedig 1 Mai 2008. Paragraffau 3 a 4 o'r llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr 2008.
3. Dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ddatblygu ffyrdd o sicrhau ei fod yn cael ei hysbysu am weithrediadau'r Ymddiriedolaeth y mae angen rhoi sylw iddynt ar lefel strategaethol ac annog diwylliant cyffredin yn y sefydliad. Mae'r canlynol ymhlith y camau angenrheidiol y dylai'r Bwrdd eu cymryd: a. Sefydlu trothwyon i nodi pryd y dylid hysbysu'r Bwrdd am faterion gweithredol. b. Cyflwyno dulliau effeithiol ar gyfer cyfathrebu rhwng cyfarwyddiaethau gweithredol, y tîm gweithredol a'r Bwrdd. c. Nodi a datblygu ffyrdd o hybu diwylliant cyffredin yn yr Ymddiriedolaeth, gan adeiladu ar ei chryfder o ran amrywiaeth.	Pwynt Bwled 8 o'r llythyr dyddiedig 1 Mai 2008. Paragraffau 5 a 10 o'r llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr 2008.

Darpariaeth Gwasanaethau Mamolaeth 4. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei threfniadau staffio'n cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau mamolaeth da ac effeithiol. Yn benodol, dylai: a. Adolygu nifer y staff bydwreigiaeth a llenwi unrhyw swyddi gwag a nodwyd neu swyddi ychwanegol sydd eu hangen gydag aelodau staff priodol. b. Sicrhau bod cynlluniau swyddi wedi'u sefydlu ar gyfer pob obstetrydd ymgynghorol. c. Sicrhau y cynhelir prosesau gwerthuso blynyddol ar gyfer holl aelodau'r staff.	Pwyntiau Bwled 4, 5, 9, 10 ac 11 o'r llythyr dyddiedig 1 Mai 2008. Paragraff 2 o'r llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr 2008.
Diwylliant 5. Dylai Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gymryd cyfrifoldeb am ddatblygu gwaith i greu ac annog diwylliant cyffredin yn yr Ymddiriedolaeth gan adeiladu ar y cryfderau yn ei sefydliad amrywiol. Wrth wneud hynny, dylid rhoi sylw i: a. Adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfathrebu ag aelodau staff a defnyddwyr y gwasanaethau mamolaeth a gweithredu gwelliannau a nodwyd. b. Adnewyddu ei hymroddiad i ddiwylliant agored, didwyll, 'dim bai' a diffinio ffyrdd ar gyfer datblygu diwylliant o ddysgu yn y gwasanaethau mamolaeth. c. Ailgodi ysbryd a hyder yn y gwasanaethau mamolaeth.	Pwyntiau Bwled 8 ac 11 o'r llythyr dyddiedig 1 Mai 2008. Paragraff 6 o'r llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr 2008.

Rheoli Risg 6. Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei strwythurau, ei systemau, ei gweithdrefnau a'i chanllawiau cyfredol o ran rheoli risg er mwyn sicrhau eu bod yn eglur ac yn gyson a'i gilydd.	
7. Dylai'r Ymddiriedolaeth gymryd camau i sicrhau bod ei pholisi, ei gweithdrefnau a'i chanllawiau o ran rheoli risg yn cael eu gweithredu'n llawn. Yn benodol, o ran adrodd am ddigwyddiadau a'u rheoli, dylai'r Ymddiriedolaeth: a. Sefydlu rhaglen hyfforddi ar gyfer unigolion sy'n gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau er mwyn sicrhau y cynhelir ymchwiliadau'n briodol a bod adroddiadau'n gywir ac o ansawdd da. b. Cytuno ar a chyhoeddi meini prawf ar gyfer penodi swyddogion a thimau ymchwilio a sicrhau bod ganddynt y pwerau llawn i gynnal yr ymchwiliad a gwneud argymhellion. c. Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau priodol i bob digwyddiad difrifol. ch. Sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau ac adrodd arnynt yn gwneud hynny mewn modd prydlon. d. Fel rhan o'i hymroddiad i gynnwys y staff yn y gwaith o reoli digwyddiadau, dylai ei gwneud yn bosibl iddynt fynychu cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Risg lleol o bryd i'w gilydd.	

8. Dylid cynnig cyfleoedd i aelodau staff sy'n gyfrifol am gofnodi gwybodaeth ar y system DATIX i rannu profiadau a datblygu dulliau cyson o wneud y gwaith hwnnw.	
9. Dylai'r Ymddiriedolaeth ail-archwilio ei dulliau o ran adborth ar yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau a chyflawni unrhyw welliannau a nodwyd.	
10. Dylai cynlluniau gweithredu a lunnir mewn ymateb i faterion a nodwyd trwy ymchwilio i ddigwyddiadau: a. Fynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd trwy'r ymchwiliad. b. Bodloni meini prawf 'CAMPUS'. c. Bod yn gysylltiedig â'r swyddogaeth/unigolyn sy'n gyfrifol am sicrhau y cymerir y camau.	
	Eitem nad oedd wedi ei chynnwys yn yr argymhellion terfynol: *Gwaith ynglŷn â "bwlio"* wedi ei gynnwys yn y llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr 2008.
	Eitem nad oedd wedi ei chynnwys yn yr argymhellion terfynol: *Meddyginiaeth y Ffoetws* wedi ei gynnwys yn y llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr 2008.